OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 2701 (Cy.241)

## PRIFFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Gwelliant Penloyn i Dan Lan) 2008

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *10 Hydref 2008* |
| *Yn dod i rym* | *30 Hydref 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer pwerau a roddir gan adran 10 o Ddeddf Priffyrdd 1980(**1**) a phob pwer galluogi arall(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**1**. Daw'r priffyrdd newydd y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu hadeiladu ar hyd y llwybrau a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn gefnffyrdd o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym.

**2**. Mae llinellau canol y cefnffyrdd newydd yn cael eu dangos gan linellau duon trymion ar y plan a adneuwyd.

**3**. Bydd y darn o gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â llinellau lletraws â stribedi bras ar y map a adneuwyd yn peidio â bod yn gefnffordd ac yn dod yn ffordd ddiddosbarth o'r dyddiad y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hysbysu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fod y cefnffyrdd newydd wedi'u hagor ar gyfer traffig trwodd.

**4**. Yn y Gorchymyn hwn:

mesurir pob mesur pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

(**1**) 1980 p.66.

(**2**) Yn rhinwedd O. S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn wedi'u trosglwyddo bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 2701 (W.241)

## HIGHWAYS, WALES

# The Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470) (Penloyn to Tan Lan Improvement) Order 2008

| | |
|---|---|
| *Made* | *10 October 2008* |
| *Coming into force* | *30 October 2008* |

The Welsh Ministers, in exercise of powers conferred by section 10 of the Highways Act 1980(**1**) and of all other enabling powers(**2**), hereby make the following Order:

**1**. The new highways which the Welsh Ministers propose to construct along the routes described in Schedule 1 to this Order shall become trunk roads as from the date when this Order comes into force.

**2**. The centre lines of the new trunk roads are indicated by heavy black lines on the deposited plan.

**3**. The length of trunk road described in Schedule 2 to this Order, and shown by broad striped hatching on the deposited map is to cease to be a trunk road and is to become an unclassified road as from the date on which the Welsh Assembly Government notifies the County Borough Council of Conwy that the new trunk roads are open for through traffic.

**4**. In this Order:

all measurements of distance are measured along the route of the relevant highway;

(**1**) 1980 c.66.

(**2**) By virtue of S.I. 1999/672 article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these powers are now transferred to the Welsh Ministers in relation to Wales.

i. ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn y rhif HA 10/2 NAFW 17 ac sydd wedi'i farcio Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Gwelliant Penloyn i Dan Lan) 2008 ac sydd wedi'i lofnodi ar ran Gweinidogion Cymru ac a adneuwyd yn Uned Storio ac Adfer Cofnodion Llywodraeth Cynulliad Cymru (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd;

ii. ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470);

iii. "y cefnffyrdd newydd" ("*the new trunk roads*") yw'r priffyrdd a grybwyllir yn erthygl 1 o'r Gorchymyn hwn ac ystyr 'cefnffordd newydd' yw un o'r cefnffyrdd hynny.

**5**. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Hydref 2008 a'i enw yw 'Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Gwelliant Penloyn i Dan Lan) 2008'

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

10 Hydref 2008

Cyfarwyddwr Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.

i. "the deposited plan" ("*y plan a adneuwyd*") means the plan numbered HA 10/2 NAFW 17 marked 'The Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470) (Penloyn to Tan Lan Improvement) Order 2008' , signed on behalf of the Welsh Ministers and deposited at the Welsh Assembly Government Record Storage and Retrieval Unit (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Cardiff;

ii. "the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470);

iii. "the new trunk roads" ("*y cefnffyrdd newydd*") means the highways mentioned in article 1 of this Order and 'a new trunk road' means one of those highways.

**5**. This Order comes into force on 30 October 2008 and its title is 'The Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470) (Penloyn to Tan Lan Improvement) Order 2008'

Signed under authority of the Minister for the Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

10 October 2008

*S C Shouler*

Director of Transport Planning and Administration Welsh Assembly Government.

## ATODLEN 1

## LLWYBRU'R CEFNFFYRDD NEWYDD

Dyma lwybrau'r cefnffyrdd newydd, sy'n llwybrau i'r gogledd o Lanrwst rhwng Penloyn a Than Lan ym Mwrdeistref Sirol Conwy:-

(1) llwybr oddeutu 0.14 cilometr o hyd, yn cychwyn wrth bwynt 390 o fetrau i'r de o ganol y gyffordd rhwng cefnffordd bresennol yr A470 a'r ffordd ddiddosbarth i Landdoged yn Nhan Lan (a ddangosir â'r llythyren A ar y plan a adneuwyd) ac yn ymestyn i gyfeiriad y gogledd at bwynt 250 o fetrau i'r de o ganol y gyffordd rhwng cefnffordd bresennol yr A470 a'r ffordd ddiddosbarth i Landdoged yn Nhan Lan (a ddangosir â'r llythyren B ar y plan a adneuwyd).

(2) llwybr oddeutu 0.79 cilometr o hyd, yn cychwyn wrth bwynt 110 o fetrau i'r de o ganol y gyffordd rhwng cefnffordd bresennol yr A470 a'r ffordd ddiddosbarth i Landdoged yn Nhan Lan (a ddangosir â'r llythyren C ar y plan a adneuwyd) ac yn ymestyn i gyfeiriad y gogledd at bwynt 680 o fetrau i'r gogledd o ganol y gyffordd rhwng cefnffordd bresennol yr A470 a'r ffordd ddiddosbarth i Landdoged yn Nhan Lan (a ddangosir â'r llythyren D ar y plan a adneuwyd).

## SCHEDULE 1

## ROUTES OF THE NEW TRUNK ROADS

The routes of the new trunk roads are routes north of Llanrwst between Penloyn and Tan Lan in the County Borough of Conwy as follows:-

(1) a route about 0.14 kilometres in length, starting at a point 390 metres south of the centre of the junction between the existing A470 trunk road and the unclassified road to Llanddoged at Tan Lan (shown marked A on the deposited plan) and extending in a northerly direction to a point 250 metres south of the centre of the junction between the existing A470 trunk road and the unclassified road to Llanddoged at Tan Lan (shown marked B on the deposited plan).

(2) a route about 0.79 kilometres in length, starting at a point 110 metres south of the centre of the junction between the existing A470 trunk road and the unclassified road to Llanddoged at Tan Lan (shown marked C on the deposited plan) and extending in a northerly direction to a point 680 metres north of the centre of the junction between the existing A470 trunk road and the unclassified road to Llanddoged at Tan Lan (shown marked D on the deposited plan).

## ATODLEN 2

## Y DARN O GEFNFFORDD SY'N PEIDIO Â BOD YN GEFNFFORDD

Y darn o gefnffordd sy'n peidio â bod yn gefnffordd yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A470 ym Mwrdeistref Sirol Conwy sydd oddeutu 0.79 cilometr o hyd ac sydd rhwng pwynt 110 o fetrau i'r de o ganol y gyffordd rhwng cefnffordd bresennol yr A470 a'r ffordd ddiddosbarth i Landdoged yn Nhan Lan (a ddangosir â'r llythrennau CC ar y plan a adneuwyd) ac yn ymestyn i gyfeiriad y gogledd at bwynt 680 o fetrau i'r gogledd o ganol y gyffordd rhwng cefnffordd bresennol yr A470 a'r ffordd ddiddosbarth i Landdoged yn Nhan Lan (a ddangosir â'r llythrennau DD ar y plan a adneuwyd).

## SCHEDULE 2

## LENGTH OF TRUNK ROAD CEASING TO BE TRUNK ROAD

The length of trunk road ceasing to be trunk road is that length of the A470 trunk road in the County Borough of Conwy about 0.79 kilometres in length situated between a point 110 metres south of the centre of the junction between the existing A470 trunk road and the unclassified road to Llanddoged at Tan Lan (shown marked CC on the deposited plan) and extending in a northerly direction to a point 680 metres north of the centre of the junction between the existing A470 trunk road and the unclassified road to Llanddoged at Tan Lan (shown marked DD on the deposited plan).

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 2701 (Cy.241)

## PRIFFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Gwelliant Penloyn i Dan Lan) 2008

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 2701 (W.241)

## HIGHWAYS, WALES

## The Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470) (Penloyn to Tan Lan Improvement) Order 2008

**£4.00**

W385/10/08 ON